**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

**CCCC 2010 (Papur 3 Rhan 1)**
**Gweithredu Taliadau Parcio Ceir**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Dyddiad:** 30 Medi 2010
**Amser:** 16:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw'r awdur a rhif cyswllt:** Connie Robertson, est 8660

# Gweithredu Taliadau Parcio Ceir

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.***

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Ceisio cymeradwyaeth y Comisiwn ar y *Canllawiau ar gyflwyno taliadau parcio ceir*.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Gofynnir i'r Comisiwn nodi'r ystyriaeth a roddwyd a'r gwelliannau a wnaed mewn ymateb i'r atborth a gafwyd ar ganllawiau drafft blaenorol.

2.2 Gofynnir i'r Comisiwn gymeradwyo'r *Canllawiau ar gyflwyno taliadau parcio ceir*, sydd i'w cael yn Atodiad A.

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, cytunodd y Comisiwn drwy fwyafrif y byddai'r Cynulliad yn adennill y costau o'r maes parcio aml-lawr a ddefnyddir pan fydd y maes parcio wrth gefn y Cynulliad yn llawn drwy gyflwyno tâl parcio ceir; yn amodol ar ymgynghoriad ehangach a chyflwyniad a roddir i'r Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Medi.

3.2 Cafodd y canllawiau drafft a gyflwynwyd yn flaenorol eu hadolygu a'u newid o ganlyniad i atborth a gafwyd gan yr holl grwpiau defnyddwyr.

3.3 Ceir crynodeb o'r atborth hwnnw yn Atodiad B, yn ogystal â chopïau o'r llythyrau gan Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol, a wnaeth gais penodol i'r Comisiwn weld y rhain, ac ymatebion llawn gan grwpiau pleidiau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad.

3.4 Gan gofio prif amcanion y canllawiau, rhoddwyd yr ymatebion mewn categorïau i nodi'r prif bwyntiau sy'n peri pryder, ac yna fe'u defnyddiwyd fel sail ar gyfer adolygiad. Yn sgil hynny, diwygiwyd y rhannau a ganlyn o'r canllawiau o ganlyniad i ystyried y materion a godwyd:

3.5 Adran 4: Trefniadau codi tâl

- gohirio gweithredu'r trefniadau tan 4 Ionawr 2011, gyda'r adolygiad nesaf yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2012 cyn i unrhyw newidiadau i'r cynllun gael eu gweithredu ar 1 Ebrill 2012; a
- chynnal adolygiad bob blwyddyn ar ôl hynny ac ymgynghori ynghylch unrhyw newidiadau, gan ystyried y costau parhaus o ddarparu mannau parcio oddi ar y safle a'r angen i adennill costau.

3.6 Adran 5: Taliadau

- Mae tri band talu wedi cael eu cynnig bellach (cynigwyd dau yn wreiddiol) ar y sail bod hyn yn cefnogi'r rheini ar incymau is;
- Gwneir darpariaeth well ar gyfer staff rhan amser; a
- Bydd staff sydd dan gontract i weithio shifftiau nos, ar benwythnosau neu ar wyliau banc yn unig yn cael eu heithrio o wneud unrhyw daliadau ar hyn o bryd, oni bai bod eu patrwm gwaith yn newid.

3.7 Arall

Gwnaed newidiadau bach eraill mewn ymateb i'r ymholiadau a'r ceisiadau am eglurhad a gafwyd gan grwpiau amrywiol, sydd wedi'u nodi yn y canllawiau diwygiedig yn Atodiad A.

## Canllawiau ar gyflwyno taliadau parcio ceir ar ystad y Cynulliad ym Mae Caerdydd

1. Cefndir

Mae'r Cynulliad yn darparu maes parcio ceir ar gyfer y rheini sy'n gweithio ar ei ystad ym Mae Caerdydd. Mae 236 o fannau parcio ar gael yn Nhŷ Hywel. Mae rhai ohonynt ar gadw, ond mae'r rhan fwyaf ar gael i'w defnyddio gan y rheini sydd â phás ar gyfer y maes parcio. Nid oes cynnig i newid y nifer bresennol o fannau ar gadw yn Nhŷ Hywel a sut y'u dyrennir.

Telir am y gost o ddarparu mannau parcio yn Nhŷ Hywel o rhent y Cynulliad ar gyfer ei gyllidebau adeiladu a gweithredu. Pan fydd maes parcio Tŷ Hywel yn llawn, gellir defnyddio'r mannau parcio ychwanegol ym maes parcio aml-lawr APCOA ("yr MSCP") gerllaw. Telir y gost o'r ddarpariaeth MSCP i APCOA.

Mae dyraniad y mannau parcio yn Nhŷ Hywel yn amrywio drwy'r wythnos i ddarparu ar gyfer amrywiadau mewn angen. Mae'r cyfnodau prysuraf fel arfer yn cyd-daro â dyddiau busnes y Cynulliad. Rhwng y ddau safle, mae digon o fannau parcio fel arfer i ateb y gofyn ar adegau prysur, ac mae'r trefniant â'r MSCP yn golygu nad yw'r Cynulliad yn talu am y mannau na ddefnyddir. Dyma'r dull mwyaf cost-effeithiol o ddarparu mannau parcio ar hyn o bryd, ac mae adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal â rheolwyr MSCP mewn perthynas â'r taliadau a'r mannau parcio sydd ar gael.

2. Diben

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rheolau a'r canllawiau ar gyfer cyflwyno taliadau parcio ceir ar gyfer ystad y Cynulliad. Diben cyflwyno taliadau parcio ceir yw:

a) Adennill y costau mewn perthynas â darparu cyfleusterau parcio ceir drwy weithredu taliadau parcio ceir sy'n fforddiadwy, yn deg ac yn dryloyw;

b) Cadw'r egwyddorion codi tâl a'r dull gweithredu mor syml â phosibl;

c) Rheoli'r mannau parcio ceir sydd ar gael fel eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon;

ch) Sicrhau bod mannau parcio ar gael ar y sail tecaf bosibl;

d) Cefnogi'r broses o ddatblygu strategaeth i annog dulliau teithio mwy cynaliadwy.

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r gweithrefnau parcio ceir presennol na wnaed unrhyw newidadau sylfaenol iddynt. Mae rhai agweddau ar y gweithdrefnau presennol yn cael eu hailadrodd yma i sicrhau eglurdeb.

3. Dull o godi tâl

Bydd ffi sefydlog ar gyfer parcio yn cael ei godi. Bydd lefel y ffi yn cael ei osod fel y bydd ganddo'r potensial i dalu costau'r maes parcio allanol ac fel y bydd yn rhesymol ac yn deg. Hefyd, dyma'r dull rhataf i'w weithredu a'i weinyddu.

4. Trefniadau codi tâl

Bydd tâl parcio blynyddol yn cael ei gyflwyno a ddaw i rym o 4 Ionawr 2011  Bydd cynllun gweithredu a chyfathrebu llawn yn cael ei lunio i gefnogi cyflwyno'r tâl. Dim ond i'r bobl a fydd wedi cytuno i dalu y bydd pas parcio newydd yn cael ei roi.

Bydd y tâl yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn Nhŷ Hywel (gan gynnwys contractwyr ac is-denantiaid) sy'n parcio eu ceir, eu faniau neu eu beiciau modur ym maes parcio Tŷ Hywel neu yn y maes parcio aml-lawr drwy gael pás ar gyfer maes parcio'r Cynulliad.

Nodir manylion yr unig eithriadau i'r canllawiau hyn yn adran 5.

Bydd y tâl blynyddol yn cael ei dynnu o gyflog Aelodau, staff cymorth yr Aelodau a staff y Cynulliad bob mis. Bydd hyn yn 1/12 o'r cyfanswm blynyddol sydd i'w dalu.

Bydd sefydliadau eraill (ee contracwyr, is-denantiaid) yn gymwys i brynu pasys ar gyfer y maes parcio ar ran eu staff a byddant yn cael anfoneb ymlaen llaw bob chwarter ar gyfer cyfanswm y nifer a gyflwynir. Y sefydliadau yn unig fydd yn gyfrifol am adennill y costau gan unigolion ac am sicrhau bod nifer y pasys y codir tâl amdanynt yn gywir.

Bydd y tâl ar gyfer y maes parcio'n cael ei adolygu'n flynyddol a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Dyddiad yr arolwg nesaf yw mis Ionawr 2012.

Bydd y Cynulliad yn ymgynghori â'r holl randdeiliaid drwy'r grwpiau cynrychioli amrywiol ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig i'r tâl.

5. Taliadau

Rhwng 4 Ionawr 2011 a 31 Mawrth 2012, cost safonol pás ar gyfer y maes parcio fydd £15 y mis/£180 y flwyddyn (gan gynnwys TAW).

Bydd y tâl yn cael ei godi ar staff sy'n gweithio'n bennaf yn Nhŷ Hywel, sef:

a) Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth llawn amser a staff y Cynulliad.

- ar gyfer y rheini sydd â chyflog o £25,000 y flwyddyn neu lai (gwirioneddol), y tâl fydd £10.00 y mis/£120.00 y flwyddyn (gan gynnwys TAW);
- ar gyfer y rheini sydd â chyflog sy'n uwch na £25,000 y flwyddyn (gwirioneddol) ac yn is na £45,000 y flwyddyn (gwirioneddol), y tâl fydd £20.00 y mis/£240.00 y flwyddyn (gan gynnws TAW); ac
- ar gyfer y rheini sydd â chyflog sy'n uwch na £45,000 y flwyddyn (gwirioneddol), y tâl fydd £30.00 y mis/£300.00 y flwyddyn (gan gynnwys TAW).

b) Bydd yr holl staff rhan amser sy'n gweithio tri diwrnod yr wythnos neu lai yn dod o fewn y categori isaf.

c) Bydd y staff sydd dan gontrat i weithio shifftiau nos, ar benwythnosau neu ar wyliau banc yn unig yn cael eu heithrio o dalu unrhyw daliadau, oni bai bod eu patrwm gwaith yn newid.

ch) Bydd staff y Cynulliad neu staff cymorth yr Aelodau nad ydynt yn gweithio'n bennaf yn Nhŷ Hywel ond sy'n ymweld â Thŷ Hywel o bryd i'w gilydd at ddibenion gwaith (ee staff allgymorth, Bae Colwyn a'r swyddfeydd etholaethol) yn gallu parcio ym maes parcio Tŷ Hywel (dim ond os y cedwir mannau parcio ymlaen llaw) ac ni fyddant yn gorfod talu. Os nad oes mannau parcio ar gael yn Nhŷ Hywel, byddant yn gallu gwneud cais am y gost o dalu am barcio mewn maes parcio yn yr un modd ag y gallant wneud cais am gostau teithio eraill sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

d) Bydd sefydliadau eraill (ee contractwyr a sefydliadau is-denantiaid) sydd wedi'u lleoli yn Nhŷ Hywel yn gorfod talu tâl sefydlog o £15 y mis ar gyfer bob pás a roddir iddynt. Gall bob sefydliad ddefnyddio ei ddisgresiwn o ran sut y bydd y tâl yn cael ei godi ar ei staff.

dd) Dylid annog ymwelwyr i ddefnyddio'r maes parcio MSCP, ond ni fydd tâl yn cael ei godi arnynt i barcio yn Nhŷ Hywel os oes man parcio wedi cael ei gadw ar eu cyfer ac os ydynt ar fusnes swyddogol.

Ni fydd mannau parcio am ddim ar gael i'r rheini sydd wedi'u lleoli yn Nhŷ Hywel sydd wedi dewis eithrio o'r system dalu. Y nhw fydd yn gyfrifol am dalu i barcio mewn unrhyw faes parcio cyhoeddus.

Ni roddir unrhyw ad-daliadau am absenoldeb salwch neu wyliau blynyddol, nac am gyfnodau o lai na mis pan fydd y Cynulliad ar gau. Gall y rheini sydd â phás ar gyfer y maes parcio sy'n disgwyl bod yn absennol am gyfnodau sy'n hwy na mis oherwydd salwch neu absenoldeb wedi'i gynllunio wneud cais i atal eu taliad misol a dychwelyd eu pás nes y byddant yn dychwelyd i'r gwaith. Ni ellir gwneud hyn ar ôl y cyfnod o absenoldeb.

Mae'n bosibl y bydd amodau ar wahân yn cael eu hystyried ar gyfer cyfnodau o ddiddymu'r Cynulliad.

Codir tâl o £5.00 i dalu am gostau darparu pasys newydd yn lle'r rhai sy'n mynd ar goll neu basys na ddychwelir ar gyfer y maes parcio MSCP.

6. Gweithredu a dyrannu mannau parcio

Bydd y mannau parcio heb eu cadw yn Nhŷ Hywel ar gael i'r rheini sydd â phás ar sail y cyntaf i'r felin. Os bydd y mannau heb eu cadw'n llawn, bydd y rheini sydd â phás yn gallu defnyddio'r maes parcio MSCP. Dylai'r rheini sydd â phás sicrhau bod maes parcio Tŷ Hywel yn llawn cyn defnyddio'r maes parcio MSCP, gan y bydd hyn yn cadw'r costau mor isel â phosibl.

Mae'r meysydd parcio ar agor i'r rheini sydd â phás ar yr adegau a ganlyn:

- Tŷ Hywel - dydd Llun i ddydd Sul, 24 awr – at ddibenion gwaith neu fusnes y Cynulliad yn unig. Bydd angen i'r Cynulliad gau maes parcio Tŷ Hywel neu ran ohono weithiau y

tu allan i'r oriau gweithio craidd, ond, lle y bo hynny'n bosibl, bydd yn rhoi rhybudd rhesymol.

- MSCP - dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 07.00 ac 20.00 – at ddibenion gwaith neu fusnes y Cynulliad yn unig. Dylid nodi na ellir gwarantu bod mannau parcio ar gael a bod hyn y tu hwnt i reolaeth y Cynulliad, er na fydd terfyn ar nifer y mannau sydd ar gael i'r Cynulliad.

7. Pasys ar gyfer y maes parcio

Ni ddylai unrhyw un ar wahân i'r unigolyn y neilltuwyd y pás ar ei gyfer ddefnyddio'r pás na'r cerbyd/cerbydau y neilltuwyd y pás ar ei gyfer/eu cyfer. Ni ddylid defnyddio'r pás ychwaith i roi mynediad i gerbydau eraill neu i'w gadael allan o'r maes parcio.

Rhaid arddangos y pás maes parcio yn y cerbyd ar bob achlysur pan fydd wedi'i barcio ym maes parcio Tŷ Hywel. Rhaid i'r unigolion sydd â Bathodyn Anabl Glas arddangos eu bathodyn a'u pás ar gyfer maes parcio'r Cynulliad yn y cerbyd pan fyddant yn parcio mewn mannau wedi'u neilltuo ar gyfer bobl anabl ym maes parcio Tŷ Hywel.

Os bydd y pasys maes parcio'n cael eu camddenfyddio mewn unrhyw ffordd, mae'n bosibl y bydd y Cynulliad yn eu tynnu'n ôl.

8. Y defnydd o'r incwm codi taliadau

Bydd yr incwm net a gesglir drwy'r taliadau maes parcio yn cael ei ddefnyddio i dalu'r costau o ddarparu mannau parcio yn y maes parcio MSCP.

Bydd unrhyw incwm sydd dros ben ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau gweithredu maes parcio Tŷ Hywel.

9. Adolygiad

Bydd grŵp teithio i'r gwaith yn cael ei sefydlu yn y Cynulliad i fonitro'r broses o gyflwyno'r taliadau a'u heffeithiorwydd parhaus gyda'r diben o ddatblygu strategaeth sy'n annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio a sicrhau gostyngiad yn y defnydd o geir i deithio i'r gwaith. Gall hyn gynnwys adolygiad o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu mannau parcio oddi ar y safle, cynigion i ddiwygio'r taliadau maes parcio a newidiadau o ganlyniad i hynny i weinyddu'r cynllun. Fodd bynnag, ni ddylid cyflwyno cynnig

syflaenol i newid y cynllun cyn dyddiad yr arolwg cyntaf ar 1 Ionawr 2012.

Bydd y grŵp yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd Rheoli’r Cynulliad.

## Nodyn i Aelodau ynghylch parcio i staff cymorth

Medi 2010

### Cefndir

Mae'r nodyn hwn yn rhoi cyngor i Aelodau ynghylch y goblygiadau i staff cymorth yn dilyn penderfyniad Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am barcio.

### Y ddarpariaeth bresennol

Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu llefydd parcio *wedi'u cadw* yn Nhŷ Hywel i Aelodau'r Cynulliad ac i rai categoriau eraill o ddefnyddwyr, fel cerbydau Gweinidogion, pobl ag anableddau, ymwelwyr, ac ati.

Darperir yr holl lefydd parcio eraill ar sail *y cyntaf i'r felin* i bawb sydd â phás parcio, sy'n cael ei rhoi am ddim i staff y Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n gwneud cais am un.

### Y sail dros gynnig parcio am ddim

Braint yn hytrach na hawl fu darparu llefydd parcio (yn Nhŷ Hywel yn ogystal â maes parcio aml-lawr APCOA) am ddim i staff (staff y Cynulliad a staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad) erioed. Gwnaed yn glir bod trefniadau parcio yn destun adolygiad o bryd i'w gilydd. Ni roddwyd ymrwymiad y byddai parcio am ddim yn rhywbeth parhaol.

### Materion i'w hystyried

Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn bryd newid y trefniadau presennol, a hynny ar sail ystyriaethau cyllidebol a'r angen i annog y rhai sy'n gweithio yn Nhŷ Hywel i wneud defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus os yw hynny'n ymarferol. Cyn gweithredu'r penderfyniad, cymerwyd camau i sicrhau bod barn staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a barn yr undebau yn cael eu hystyried yn llawn.

Mae statws staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, ar y cyfan, yn debyg i statws staff y Cynulliad, hynny yw, mae trefniadau presennol y Comisiwn yn fraint yn hytrach na hawl, ac yn destun adolygiad o bryd i'w gilydd gan y Comisiwn.

Fodd bynnag, yr Aelodau, yn hytrach na Chomisiwn y Cynulliad, sy'n cyflogi staff cymorth. Felly, mae'n rhaid i'r Aelodau sicrhau nad ydynt wedi llunio cytundebau penodol â'u staff cymorth sy'n mynd y tu hwnt i'r rheol gyffredinol sy'n gymwys i staff y Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, fel yr amlinellwyd uchod.

Dylai unrhyw Aelod sy'n credu ei fod wedi llunio cytundeb o'r fath, neu y mae ei staff cymorth yn honni bod cytundeb o'r fath yn bodoli, gysylltu â John Chick, pennaeth yr Uned Cymorth Busnes i Aelodau (estyniad 8581) fel y gall y Comisiwn gynnig cyngor a chymorth priodol er mwyn datrys y mater.

| **Categori** | **Grŵp Staff** | **Atborth** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| Codi tâl | Staff y Comisiwn (sylwadau unigolyn) | Cynnig 3 band, sef:<br><£20k - £10<br>£20-£40k - £15<br>>£40k - £20 | Canllawiau wedi'u diwygio mewn perthynas a'r 3 band. |
| | Staff Cymorth /Dem Rhydd (ymateb grŵp) | Cynnig 3 band – gyda £25k fel y band canol hyd at radd uchaf staff cymorth. | Fel yr uchod. |
| | Staff Cymorth /Llafur (ymateb grŵp) | Cynnig 3 band:<br><25k - £10<br>£25-£35k - £15<br>>£35k – i'w benderfynu | Fel yr uchod. |
| | Aelodau'r Ceidwadwyr (ymateb grŵp) | Croesawu'r gyfradd £10 i staff sy'n ennill llai na 25k. Yn dymuno cael system 3-band fwy cyfartal, i staff sydd ar gyflogau cymedrol a chyfradd uwch i Aelodau'r Cynulliad ac uwch reolwyr. | Fel yr uchod. |
| | Undeb – PCS | Cynnig 5 band: | Y cynnig yn gymwys i staff y |

| **Categori** | **Grŵp Staff** | **Atborth** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| | (Comisiwn) | TS - £10<br><br>EO/HEO - £15<br><br>SEO/G7 - £20<br><br>G6 - £35<br><br>SS - £40 | Cynulliad yn unig.<br><br>Cynyddu cymhlethdod o ran ei weinyddu. |
| | Is-denantiaid – Llywodraeth y Cynulliad | Yn bwriadu cyflwyno'r cynllun ar sail:<br><br>Band D ac uwch - £20<br><br>TS & EO - £10 | I'w nodi. |
| | Staff y Comisiwn (unigolyn) | Dylai'r tâl fod yn un amrywiol. | Cynyddu cymhlethdod o ran ei weinyddu. |
| | Staff y Comisiwn (unigolyn) | Swm penodol ar gyfer pob graddfa cyflog. | Fel PCS. |
| | Staff y Comisiwn (unigolyn) | Dylai'r amcangyfrif o'r incwm ystyried effaith y rhai sy'n dewis peidio â chael cerdyn ac effaith colli swyddi. | Bydd effaith y rhai sy'n dewis peidio â chael cerdyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad blynyddol, sydd ar hyn o bryd yn cael ei ystyried yn isel iawn ar sail arolygon teithio i'r |

| **Categori** | **Grŵp Staff** | **Atborth** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| | | | gwaith. |
| | Staff y Comisiwn (unigolyn) | Dylai'r tâl ystyried/cynnwys holl gostau darparu gwasanaeth parcio ceir. | Costau maes parcio Tŷ Hywel = oddeutu £780k y flwyddyn = £3,302 y flwyddyn am bob lle. |
| | Staff y Comisiwn (unigolyn) | £15 i gontractwyr yn rhy isel. Mae staff yn sybsideiddio eu defnydd hwy o gyfleusterau parcio'r Cynulliad. | Cyfrifwyd hyn yn ôl cyfartaledd cost y defnyddiwr / y cerdyn parcio. |
| Codi tâl – yn benodol mewn perthynas â staff rhan amser a defnyddwyr achlysurol | Staff y Comisiwn (amrywiol) | Dylai'r bandiau talu adlewyrchu'r rhai sy'n gweithio'n rhan amser / defnydd (e.e. defnyddwyr achlysurol) yn hytrach na'r gallu i dalu. | Y canllawiau wedi'u diwygio mewn perthynas â staff rhan amser. |
| | Staff y Comisiwn (amrywiol) | Staff rhan amser yn talu cyfradd anghymesur 'y diwrnod' na staff llawn amser. | Y canllawiau wedi'u diwygio mewn perthynas â staff rhan amser. |
| | Staff y Comisiwn (unigolyn) | Staff rhan amser yn tueddu i fod yn fenywod – gallai'r cynnig ymylu ar wahaniaethu anuniongyrchol ar sail rhyw o ran triniaeth llai ffafriol. | Y canllawiau wedi'u diwygio mewn perthynas â staff rhan amser. |

| **Categori** | **Grŵp Staff** | **Atborth** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| | Aelodau'r Ceidwadwyr (ymateb grŵp) | Galw am ailystyried trefniadau ar gyfer staff rhan amser, gweithwyr etholaethol a'r trefniadau ar gyfer y mis pan ddiddymir y Cynulliad pan na fydd mynediad i rai grwpiau. | Y canllawiau wedi'u diwygio mewn perthynas â staff rhan amser a chyfnodau absenoldeb (mwy na mis). Nodwyd y bydd amodau ar wahân yn cael eu hystyried pan ddiddymir y Cynulliad. |
| | Staff cymorth/Ceidwadwyr / Plaid (ymateb grŵp) | Dylid codi tâl ar sail pro-rata i staff rhan amser a defnyddwyr achlysurol (e.e. ar gyfer dyddiau busnes). | Canllawiau wedi'u diwygio mewn perthynas â staff rhan amser. |
| | Staff cymorth/Llafur (ymateb grŵp) | I staff sy'n gweithio llai na hanner eu dyddiadu gwaith blynyddol yn Nhŷ Hywel, dylid codi tal sy'n gyfystyr â hanner y band cyflog perthnasol. | Bydd y tâl ond yn gymwys i staff sydd â Thŷ Hywel fel eu prif weithle, yn unol a'r canllawiau. |
| Eithriadau | Staff y Comisiwn (unigolyn) | Nid oes gan staff sydd ar gontractau penwythnos neu ŵyl y banc unrhyw effaith ariannol ar y trefniadau parcio. | Canllawiau wedi'u diwygio. |
| | Undeb – PCS (Comisiwn) | Ni ddylid codi tâl ar weithwyr shifft nos gan nad oes gan hynny unrhyw effaith ariannol ar y trefniadau parcio. | Canllawiau wedi'u diwygio. |

| **Categori** | **Grŵp Staff** | **Atborth** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| | Staff cymorth/Ceidwadwyr (ymateb grŵp) | Dylai deiliaid bathodyn glas gael eu heithrio. | Mae llefydd cadw yn Nhŷ Hywel yn lleihau'r llefydd sydd ar gael yn gyffredinol.<br><br>Rhaid talu os nad oes lle ar gael yn Nhŷ Hywel. |
| | Contractwr | Cynnig trefniadau gweinyddol a fyddai'n cynnwys system rhannu pas i staff rhan amser / llawrydd. | Cynyddu'r gwaith gweinyddol. |
| Dyddiad gweithredu | Undeb - PCS (Comisiwn) | Gwrthwynebu 1 Hydref 2010 gan y byddai hynny'n cael gwared ar y codiad cyflog a gytunwyd ddyddiau'n unig cyn y cafodd y tâl am barcio ei gynnig. | Canllawiau wedi'u diwygio.<br><br>Dyddiad gweithredu wedi ei symud i 4 Ionawr 2011. |
| Telerau ac amodau staff | Undeb PCS (Comisiwn)<br><br>Staff y Comisiwn (amrywiol) | Yn ystyried bod parcio am ddim yn amod ymhlyg. | Y Comisiwn wedi ceisio cyngor cyfreithiol.<br><br>Y canllawiau heb eu diwygio. |
| | Staff cymorth/Llafur (ymateb grŵp) | Yn ystyried parcio am ddim fel rhan o'r telerau ac amodau gwaith. | Anfon nodyn i Aelodau ynghylch parcio i staff cymorth yn gynnar ym mis Medi. |

| Categori | Grŵp Staff | Atborth | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | | | Y canllawiau heb eu diwygio. |
| | Undeb - Unite (staff cymorth) | Mae parcio am ddim yn amod ymhlyg yng nghontractau staff presennol. | Fel yr uchod.<br><br>Y canllawiau heb eu diwygio. |
| Adolygu'r gost | Undeb – PCS (Comisiwn) | Adolygu bob dwy flynedd<br><br>Adolygiad cyntaf Ebrill 2012<br><br>Ymgynghori ar unrhyw newid (nid codiad 3% awtomatig) | Y canllawiau wedi'u diwygio er mwyn adlewyrchu'r dyddiad adolygu a'r ymgynghori. |
| | Staff cymorth/Llafur (ymateb grŵp) | Adolygiad cyntaf Ebrill 2012<br><br>Dylai'r trothwy fod yr un fath â'r cyfartaledd yng nghynnydd cyflogau staff y Comisiwn a staff cymorth adeg y dyddiadau setlo agosaf cyn yr adolygiad neu 3%, pa un bynnag yw'r isaf. | Mae angen sicrhau bod costau'r maes pacrio allanol yn cael eu hadennill.<br><br>Y canllawiau wedi'u diwygio er mwyn adlewyrchu'r dyddiad adolygu. |
| | Undeb - Unite (staff cymorth) | Dim mwy nag un cynnydd mewn cyfnod o 12 mis.<br><br>Dylai unrhyw gynnydd fod yn destun ymgynghori â staff a'u hundebau.<br><br>Dylid capio unrhyw gynnydd yn ôl cynnydd % | Mae angen sicrhau bod costau'r maes pacrio allanol yn cael eu hadennill.<br><br>Grŵp teithio i'r gwaith y Cynulliad i fonitro ac adolygu cost / dewisiadau y |

| **Categori** | **Grŵp Staff** | **Atborth** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| | | yng nghyflogau staff cymorth yn y flwyddyn berthnasol.<br><br>Dylai'r ymgynhgori gynnwys adroddiad ar y camau a gymerwyd i leihau'r gost o dalu am lefydd parcio y ny maes parcio aml-lawr. | ddarpariaeth.<br><br>Y canllawiau wedi'u diwygio i adlewyrchu'r ymgynghoriad. |
| | Aelodau'r Ceidwadwyr (ymateb grŵp) | Yn credu bod diffyg ymgynghori wedi bod. Nid yw'r Aelodau'n fodlon bod y trefniadau presennol yn cynnig gwerth am arian nac yn fodlon bod atebion amgen, fwy cost-effeithiol, wedi'u harchwilio. | Ymgynghorwyd â'r holl grwpiau o ddefnyddwyr a defnyddiwyd eu hatborth fel sail i'r canllawiau blaenorol a gyhoeddwyd ac fel sail i'w newid.<br><br>Cynhelir adolygiadau cyson o'r taliadau a'r dewisiadau amgen gan y Comisiwn, a newidiwyd y canllawiau er mwyn darparu ar gyfer hyn gan grŵp teithio i'r gwaith y Cynulliad er mwyn sicrhau'r Aelodau mai'r trefniadau mwyaf cost-effeithiol sy'n weithredol. |
| Y defnydd o lefydd gwag | Undeb – PCS (Comisiwn) | Cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf a chynnig ad-daliad/gostyngiad. | Nid yw egwyddorion cyfrifyddu'n caniatáu. |

| Categori | Grŵp Staff | Atborth | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | Staff cymorth/Llafur | | |
| Mynediad i gyfleusterau parcio. | AC (unigolyn) | Dylai fod ar sail 'angen'. | Angen cytuno ar feini prawf i ddiffinio 'angen'.<br><br>Grŵp teithio i'r gwaith y Cynulliad i adolygu fel rhan o'i waith o ddatblygu'r strategaeth. |
| | AC (unigol) | Dylai fod ar sail pellter / defnyddiwr car angenhreidiol. | Fel yr uchod. |
| Llefydd wedi'u cadw | Staff cymorth/Ceidwadwyr (ymateb grŵp) | Ni ddylid cadw llefydd i ymwelwyr – dylid codi tâl arnynt neu dylent dalu i ddefnyddio meysydd parcio eraill. | Dylid annog ymwelwyr i ddefnyddio'r maes parcio aml-lawr i ddechrau, yn unol â'r canllawiau. |
| Cynaliadwyedd | APS | Nid yw codi tâl am barcio yn gwneud y Cynulliad yn fwy gwyrdd. | Mae canllawiau mwy tymor hir yn gobeithio cefnogi datblygu strategaeth i annog dulliau teithio mwy cynaliadwy. |
| | APS | Bydd codi tâl am barcio yn annog y rhai sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar ddiwrnodau di-fusnes i yrru i'r gwaith. | Fel yr uchod. |

| Categori | Grŵp Staff | Atborth | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | APS | Nid codi tâl yw'r ateb gorau i annog y defnydd o ddulliau amgen cynaliadwy. | Fel yr uchod. |

**The Public and Commercial Services Union**

**National Assembly for Wales Branch**

Wayne Cowley
Adran Adnoddau Dynol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

9 Gorffennaf 2010

Annwyl Wayne

**FFIOEDD PARCIO**

Cyfarfu Craig Stevenson, ar ran yr FDA, a minnau gyda chi a Vanessa ddydd Mercher i drafod y cynnig y dylid cyflwyno ffioedd am ddefnyddio'r maes parcio yn Nhy Hywel ac yn y maes parcio aml-lawr.

Roedd yn amlwg o'r cyfarfod bod yr FDA a'r PCS yn rhannu nifer o safbwyntiau cyffredin ar rai o'r materion ymarferol yn ymwneud â chyflwyno ffioedd. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd pwysig, roedd gwahaniaeth amlwg mewn agwedd, sydd efallai'n ddealladwy o gofio safbwyntiau gwahanol llawer o'n haelodau. Yn wyneb hyn, meddyliais y byddai'n ddefnyddiol nodi, er mwyn y cofnod, barn PCS ar y cynnig a'r pryderon a fynegwyd gan lawer o'n haelodau (gan gynnwys pryderon ychwanegol y tynnwyd fy sylw atynt ers i ni gyfarfod).

Yn gyntaf ac yn bennaf, credwn ei fod yn anffodus iawn i'r cynnig hwn gael ei gyhoeddi mor fuan ar ôl cytuno ar drefniadau cyflog newydd. Rwy'n derbyn eich sicrwydd mai cyd-ddigwyddiad oedd hyn. Fodd bynnag, fe fyddwch yn sylweddoli efallai y byddai llawer o'n haelodau wedi cymryd agwedd wahanol tuag at y cynnig cyflog pe baent yn gwybod bod cynnig rheolaethol i dynnu'n ôl rhan sylweddol o'u codiad cyflog, i bob pwrpas. Bydd y rhan fwyaf o godiad cyflog pawb sydd o dan Fand D yn mynd ar ffioedd parcio.

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**

Er mwyn egluro'r pwynt, rwy'n amgáu tabl sy'n dangos y codiad cyflog canrannol gwirioneddol y bydd staff yn ei dderbyn os caiff y cynnig hwn ei gyflwyno. Yr hyn y mae'r tabl hwn yn ei ddangos yn glir yw y bydd y ffi arfaethedig yn cael effaith anghyfartal ar staff sydd ar gyflog is, a byddant, o ganlyniad i hynny, yn derbyn codiad cyflog canrannol is na staff uwch. Go brin fod hyn yn cefnogi'r ethos "un tîm" y ceisiodd y tîm rheoli ei bwysleisio yn ystod y trafodaethau ynghylch cyflog. (Rwy'n derbyn nad yw'r ffi yn debygol o fod yn berthnasol o 1 Ebrill eleni ond, pa bryd bynnag y caiff ei gyflwyno, bydd yn cael yr effaith fwyaf ar y rheini sydd â'r lleiaf.) Am y rheswm hwn, os caiff unrhyw ffi ei chyflwyno, credwn fod angen rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i ryw ffordd o'i graddoli.

Ein hail bryder mawr yw ei bod yn ymddangos bod y trefniadau parcio presennol yn bodloni'r profion a gaiff eu hystyried fel rhai sydd o fudd cytundebol posibl. Rwy'n nodi na wnaethoch dderbyn hyn yn y cyfarfod, ond ni allech roi unrhyw resymau i mi pam na ddylid ei ystyried i fod yn gytundebol. Er mwyn y cofnod, ac yn absenoldeb unrhyw ddadl i'r gwrthwyneb, mae'r PCS yn pwysleisio mai hawl cytundebol yw'r trefniadau presennol ac nid yw'n cytuno ar unrhyw newid iddynt heb gytundeb ar y cyd i wneud hynny.

Gan droi at rai o'r materion manylach sy'n codi o'r cynnig hwn, fe wnaethom amlinellu nifer o faterion ymarferol, y gwnaethoch gytuno i'w hystyried. Ymysg y rhain roedd:

- pa un ai cael un gyfradd safonol i bawb, waeth faint maent yn ei ddefnyddio ar y maes parcio, oedd y ffordd orau i annog defnyddio dulliau eraill o drafnidiaeth ac a fyddai cynnig cymhorthdal ar gyfer defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ffordd well o gyflawni amcanion cynaliadwyedd:
- a ellid sicrhau mannau parcio
- sefyllfa defnyddwyr eraill yr adeilad;
- sut fyddai gweinyddu unrhyw ffi (yn enwedig a fyddai didyniadau'n cael eu cymryd o gyflogau);
- i ba raddau y gallai'r ffi achosi cymhellion gwrthnysig, yn enwedig i ddefnyddwyr achlysurol neu'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofal;
- a fyddai unrhyw ad-daliad i staff a ddioddefodd gyfnodau estynedig o salwch neu a gymerodd gyfnodau sylweddol i ffwrdd o'r gwaith;
- sefyllfa gweithwyr rhan-amser, yn enwedig y rheini nad ydynt yn gweithio bob dydd;
- sefyllfa timoedd sy'n gweithio yn ystod y nos ac nad ydynt, oherwydd eu patrwm gwaith, yn cael unrhyw effaith ar gost y maes parcio aml-lawr;
- yr angen i gynyddu'r defnydd o faes parcio Ty Hywel (ac felly lleihau'r defnydd o'r maes parcio aml-lawr). Yn arbennig, adolygu a oes angen yr holl fannau parcio presennol sydd wedi'u neilltuo;

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**

- sut fyddai ffioedd (ac unrhyw gynnydd) yn cael eu pennu yn y dyfodol ac a fydd unrhyw ad-daliad os bydd y ffi'n codi mwy o incwm na'r costau y bwriedir iddi dalu amdanynt;
- sefyllfa staff sy'n penderfynu peidio â thalu'r ffi ond sydd, fodd bynnag, angen dod â'u ceir i'r gwaith yn achlysurol at ddibenion yn ymwneud â'r gwaith;
- sefyllfa staff anabl. Yn ein barn ni, mae'n rhaid neilltuo mannau parcio ar gyfer staff anabl yn Nhy Hywel. Fodd bynnag, oni ellir dangos rhywfaint o galedi ariannol, ni allwn weld unrhyw gyfiawnhad dros eithrio staff anabl rhag talu'r ffi. (Pe bai eithriad diwahân ar gyfer staff anabl, yn naturiol byddem yn disgwyl bod system ad-dalu ar gyfer staff sy'n dioddef anabledd dros dro);
- a fydd unrhyw system ad-dalu i fynd i'r afael â chaledi ariannol dros dro (ac os bydd, sut y caiff ei hasesu);
- a fydd defnyddwyr beiciau modur yn talu ffi? Os byddant, a gaiff y ffi ei lleihau o ystyried eu bod yn cymryd llai o le?

Tynnodd llawer o'n haelodau sylw at y ffaith ei bod yn gymharol anodd cyrraedd Ty Hywel ar drafnidiaeth gyhoeddus. I staff sy'n teithio o rai ardaloedd (gan gynnwys ardaloedd gweddol agos), yn syml, nid yw trafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn realistig, yn enwedig os oes raid iddynt ymdrin â chyfrifoldebau gofal. Maent hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod defnyddio car yn aml yn galluogi staff i weithio'n hyblyg er lles y Cynulliad.

Mynegwyd nifer sylweddol o bryderon hefyd am adroddiadau diweddar yn y cyfryngau a oedd yn dweud y gallai Aelodau'r Cynulliad hawlio ad-daliad am unrhyw gostau drwy eu treuliau. Mae'r rhan fwyaf o'n Haelodau'n cydnabod yr angen i Aelodau gael mannau parcio wedi'u neilltuo yn Nhy Hywel ond byddent yn ei ystyried yn annheg iawn pe byddent yn cael eu heithrio, i bob pwrpas, rhag talu. Er na allech fynd i'r afael â'r pwynt hwn yn uniongyrchol yn ystod ein cyfarfod, mae Steve O'Donoghue wedi nodi nad yw'r adroddiad yn y wasg yn wir ac rwy'n fodlon derbyn ei sicrwydd.

Hoffwn fynegi ein siom bod y cynigion hyn wedi eu trafod gan Gomisiwn y Cynulliad ddoe, dim ond diwrnod ar ôl ein cyfarfod. Mae'n amlwg bod y cynigion hyn yn mynd rhagddynt yn dda ac na roddwyd digon o gyfle i ni ddod â'n pryderon i sylw'r Comisiwn. Byddwn yn ddiolchgar o gael sicrwydd na fydd newidiadau'n cael eu rhoi ar waith nes bod ein pryderon wedi eu dwyn i sylw'r Comisiwn ac ar ôl cyfnod rhesymol o drafod.

Ein barn bendant hefyd yw na ddylid cyflwyno ffioedd tan y flwyddyn ariannol nesaf ar y cynharaf. Mae hyn, nid oherwydd bod cyllideb y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn hon eisoes wedi'i phennu (rydym yn tybio heb ddibynnu ar y ffrwd incwm bosibl hon) ond hefyd oherwydd y byddai'n helpu i ddileu unrhyw deimlad o ragrith ynghylch y cytundeb cyflog.

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**

Yn olaf, dylwn ei gwneud yn glir ein bod yn cydnabod llawer o'r dadleuon dros godi rhyw fath o ffi. Mae nifer o'n haelodau wedi dweud, yn gyffredinol, efallai nad yw'r ffioedd hyn yn afresymol. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i drafodaethau iawn gael eu cynnal ar lefel y ffi a'r nifer o faterion ymarferol sydd angen mynd i'r afael â hwy. Byddem hefyd yn disgwyl i'r ffioedd gael eu cyflwyno ar adeg sy'n cael yr effaith leiaf bosibl ar y trefniadau cyflog diwygiedig yr ydym newydd gytuno arnynt ac mewn ffordd nad yw'n cael effaith anghyfartal ar staff sydd ar gyflogau cymharol is.

Yn gywir

**Steve George**

**Ar ran Pwyllgor Cangen PCS**

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**

| | Codiad Cyflog o 1.4% 1/4/10 | Ffi Parcio | **Codiad Cyflog % gwirioneddol** | Codiad Cyflog o 1.0% 1/4/11 | Ffi Parcio | **Codiad Cyflog % gwirioneddol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Tîm** | | | | | | |
| Pwynt 1 | 238.00 | 180.00 | **0.34** | 172.38 | 180.00 | **-0.04** |
| Pwynt 2 | 259.00 | 180.00 | **0.43** | 187.59 | 180.00 | **0.04** |
| Pwynt 3 | 280.00 | 180.00 | **0.50** | 202.80 | 180.00 | **0.11** |
| **Band C** | | | | | | |
| Pwynt 1 | 281.40 | 180.00 | **0.50** | 203.81 | 180.00 | **0.12** |
| Pwynt 2 | 295.68 | 180.00 | **0.55** | 214.16 | 180.00 | **0.16** |
| Pwynt 3 | 309.96 | 180.00 | **0.59** | 224.50 | 180.00 | **0.20** |
| Pwynt 4 | 324.24 | 180.00 | **0.62** | 234.84 | 180.00 | **0.23** |
| Pwynt 5 | 338.52 | 180.00 | **0.66** | 245.19 | 180.00 | **0.27** |
| Pwynt 6 | 352.80 | 180.00 | **0.69** | 255.53 | 180.00 | **0.30** |
| **Band D** | | | | | | |
| Pwynt 1 | 359.80 | 180.00 | **0.70** | 260.60 | 180.00 | **0.31** |
| Pwynt 2 | 381.36 | 180.00 | **0.74** | 276.21 | 180.00 | **0.35** |
| Pwynt 3 | 402.92 | 180.00 | **0.77** | 291.83 | 180.00 | **0.38** |
| Pwynt 4 | 424.20 | 180.00 | **0.81** | 307.24 | 180.00 | **0.41** |
| Pwynt 5 | 445.20 | 180.00 | **0.83** | 322.45 | 180.00 | **0.44** |
| Pwynt 6 | 464.80 | 180.00 | **0.86** | 336.65 | 180.00 | **0.47** |

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**

**Band E**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwynt 1 | 476.00 | 180.00 | **0.87** | 344.76 | 180.00 | **0.48** |
| Pwynt 2 | 498.40 | 180.00 | **0.89** | 360.98 | 180.00 | **0.50** |
| Pwynt 3 | 520.80 | 180.00 | **0.92** | 377.21 | 180.00 | **0.52** |
| Pwynt 4 | 543.20 | 180.00 | **0.94** | 393.43 | 180.00 | **0.54** |
| Pwynt 5 | 565.60 | 180.00 | **0.95** | 409.66 | 180.00 | **0.56** |
| Pwynt 6 | 588.00 | 180.00 | **0.97** | 425.88 | 180.00 | **0.58** |

**Band F**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwynt 1 | 616.00 | 180.00 | **0.99** | 446.16 | 180.00 | **0.60** |
| Pwynt 2 | 645.12 | 180.00 | **1.01** | 467.25 | 180.00 | **0.61** |
| Pwynt 3 | 674.24 | 180.00 | **1.03** | 488.34 | 180.00 | **0.63** |
| Pwynt 4 | 703.36 | 180.00 | **1.04** | 509.43 | 180.00 | **0.65** |
| Pwynt 5 | 732.48 | 180.00 | **1.06** | 530.52 | 180.00 | **0.66** |
| Pwynt 6 | 761.60 | 180.00 | **1.07** | 551.62 | 180.00 | **0.67** |

**Band G**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwynt 1 | 763.00 | 180.00 | **1.07** | 552.63 | 180.00 | **0.67** |
| Pwynt 2 | 797.44 | 180.00 | **1.08** | 577.57 | 180.00 | **0.69** |
| Pwynt 3 | 831.88 | 180.00 | **1.10** | 602.52 | 180.00 | **0.70** |
| Pwynt 4 | 866.32 | 180.00 | **1.11** | 627.46 | 180.00 | **0.71** |
| Pwynt 5 | 900.76 | 180.00 | **1.12** | 652.41 | 180.00 | **0.72** |
| Pwynt 6 | 935.20 | 180.00 | **1.13** | 677.35 | 180.00 | **0.73** |

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**

**Annex B**

**Steve George**

**Parcio**

Dyddiad: 16 Gorffennaf 2010

Annwyl Steve

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf.

Hoffwn, yn gyntaf, ymdrin â'r amseru. Gallaf weld pam eich bod yn teimlo ei bod yn anffodus bod y wybodaeth wedi'i chyhoeddi'n agos at gwblhau'r cytundeb cyflog, ond ni allaf ond ailadrodd y sicrwydd a roddais i chi nad oedd cysylltiad rhwng y ddau fater. Rhoddwyd y wybodaeth i Aelodau'r Cynulliad felly roedd yn bwysig fod gan ein cyflogeion yr un wybodaeth.

Ynghylch y pwynt cytundebol, er nad ydym yn derbyn bod darparu maes parcio yn amod cytundebol, rydym yn ceisio cyngor cyfreithiol manylach. Fodd bynnag, mewn llawer ffordd, mae'r cwestiwn ynghylch a yw wedi dod yn amod posibl ai peidio bron yn bwynt dadl.

Pa un ai a yw'n amod posibl ai peidio, y pwynt yw na all y sefyllfa bresennol barhau ac os methwn ag adfer y costau yn y ffordd a amlinellwyd, yna bydd angen gwneud toriadau i ryw ran arall o'r gyllideb. Felly, rydym yn awyddus i gael dull o godi tâl sy'n adfer y costau angenrheidiol tra'i fod yn mynd i'r afael â chymaint o'ch pryderon â phosibl.

Rydych yn nodi bod y Comisiwn wedi ystyried y syniad y diwrnod ar ôl i ni gyfarfod. Hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith mai ystyriaeth gychwynnol o'r cynnig oedd hon cyn gwneud penderfyniad ym mis Medi. Felly, roedd yn bwysig cael barn rhanddeiliaid (fel yr undebau llafur) mewn da bryd er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw ar yr adeg honno.

Byddwn yn ystyried y pwyntiau eraill a nodwch yn eich llythyr fel rhan o'n hystyriaethau pellach ond ein nod yw parhau i gadw'r system mor syml â phosibl.

Yn gywir,

**Wayne Cowley**
**Pennaeth Gweithrediadau Adnoddau Dynol**
**Head of HR Operations**

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**

**Annex B**

The Public and Commercial Services Union/Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol

**Chair/Cadeirydd:** Christine Morgan

**Tel/Ffôn:** 029 2089 8907

**Secretary/Ysgrifennydd**: Mr Kevin Davies

**Tel/Ffôn:** 029 2089 8651

---

Connie Robertson

Pennaeth Ystadau a TGCh

Annwyl Connie

**ARWEINIAD DRAFFT AR GYFER CYFLWYNO TÂL I BARCIO AR YSTÂD Y CYNULLIAD YM MAE CAERDYDD**

Diolch am gyfle i edrych ar y cynigion hyn. Mae PCS wedi gofyn barn yr aelodau drwy ymgynghoriad agored sydd wedi amlygu nifer o faterion fydd angen eu hegluro ac sydd hefyd wedi cynnig rhai gwelliannau i'r polisi arfaethedig.

**<u>Cost y taliadau</u>**

Rydym yn croesawu'r cynnig eich bod am gyflwyno haenau cost sydd wedi ei seilio, i ryw raddau, ar y gallu i dalu. Tybiwn fod £25,000 wedi cael ei ddewis fel ffigur oherwydd dyma'r pwynt lle bydd nifer cyfartal o staff yn talu'r gost uwch o'i gymharu â'r gost is. A allwch gadarnhau hyn, a chadarnhau bod y cynllun, felly, yn niwtral o ran cost o'i gymharu â'ch cynnig gwreiddiol, sef codi tâl o £15 i bawb?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech adael i ni wybod a wnaethoch edrych ar unrhyw drefniadau eraill; er enghraifft, rhagor o haenau cost neu daliadau sy'n seiliedig ar ganran o gyflog?

Er ein bod yn croesawu codi tâl sy'n cymryd i ystyriaeth gallu unigolion i dalu, ni chredwn fod eich cynigion yn ddigon pellgyrhaeddol. Er bod nifer o'n haelodau yn teimlo bod taliadau gwahaniaethol yn gywir mewn egwyddor, nid ydynt yn credu bod y trefniadau rydych yn eu cynnig mor deg ag y gallent fod; er enghraifft,

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**

mae'r gost, fel cyfran o gyflog, i'r staff sy'n ennill llai cymaint â chwe gwaith yn fwy nag i'r staff uwch.

Deallwn y dylai unrhyw gyfundrefn ar gyfer codi tâl:

- godi tua'r un faint o arian;
- bod yn gymharol syml i'w gweithredu; a
- rhoi "chwarae teg" i bawb;

Fodd bynnag, credwn ei bod yn bosibl cwrdd â'r amcanion hyn, a gwneud hynny mewn modd a fydd yn denu cefnogaeth mwy o staff ac sy'n teimlo'n rhesymol ac yn deg, ac sydd â sail resymegol gliriach.

Yn sgil hyn, dymunwn gynnig bod y taliadau'n cael eu codi fel a ganlyn (mae'r costau'n fisol ac am un pas):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm | - | £10 | (tua 0.6% i 0.7% o gyflog blynyddol) |
| EO a HEO | - | £15 | (tua 0.5% i 0.9% o gyflog blynyddol) |
| SEO a G7 | - | £20 | (tua 0.4% i 0.7% o gyflog blynyddol) |
| G6 | - | £35 | (tua 0.6% i 0.8% o gyflog blynyddol) |
| Staff Uwch | - | £40 | (tua 0.3% i 0.6% o gyflog blynyddol) |

Dengys ein hamcangyfrifon y byddai codi tâl yn y modd hwn yn codi'r un faint o arian â'r cynnig gwreiddiol, sef tâl o £15 i bawb, a'r tâl gwahaniaethol a awgrymwyd yn eich llythyr.

Byddwn yn ddiolchgar i gael clywed eich barn ar y cynigion hyn, a chael cadarnhad y byddant yn cael eu gosod o flaen Comisiwn y Cynulliad pan fydd yn ystyried lefel y tâl y mae'n bwriadu ei godi.

**<u>A fydd rhaid i Aelodau'r Cynulliad dalu?</u>**

Mae nifer o'n haelodau wedi lleisio pryderon am y negeseuon cymysg maent wedi eu derbyn o ran gallu Aelodau'r Cynulliad i hawlio'r taliadau yn ôl fel rhan o'u treuliau. Rydym yn ymwybodol o'r sylw yn y wasg a awgrymodd y byddai'r Aelodau yn gallu hawlio taliadau parcio yn ôl, ond cawsom sicrwydd na fyddai hyn yn digwydd. Fodd bynnag, deallaf o bosibl nad oedd y sicrwydd hwn yn gywir. Byddwn yn croesawu sicrwydd pendant gennych, felly, nad yw Aelodau'r Cynulliad yn gallu hawlio taliadau parcio yn ôl ar hyn o bryd, a ni fyddant yn gallu gwneud

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**

hynny yn y dyfodol. Mae’r mater hwn yn bwynt pwysig o egwyddor i lawer o aelodau PCS.

Ar bwnc arall, dywed y ddogfen y bydd cost flynyddol y tâl i barcio’n cael ei ddidynnu’n fisol o gyflog staff y Cynulliad ac Aelodau’r Cynulliad a’u staff cymorth. Gan fod staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn gyflogeion Aelodau Cynulliad unigol, buaswn yn tybio mai’r Aelodau fyddai â’r hawl i benderfynu codi tâl ymhlith eu staff a sut i gasglu’r tâl hwnnw. A allwch egluro’r pwynt hwn?

**Amseriad cyflwyno’r taliadau**

Y cynnig yw cyflwyno’r taliadau o 1 Hydref 2010 ymlaen. Ni allwn dderbyn hyn. Fel yr eglurodd ein llythyr blaenorol, byddai cyflwyno’r taliadau ar y dyddiad hwn yn dileu, i raddau helaeth, y codiad tâl a gytunwyd rhai diwrnodau cyn awgrymu codi tâl i barcio. Awgrymwn fod unrhyw dâl yn cael ei gyflwyno o 1 Ebrill 2010 ar y cynharaf.

Byddai gwneud hyn yn cyd-fynd â blwyddyn ariannol y Cynulliad, ac yn unioni cynnig â’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, a gytunwyd eisoes ar y rhagdybiaeth na fyddai tâl i barcio’n cael ei godi.

Mae’r dyddiad hwn hefyd yn cydweddu ag amserlen y dyfarniad cyflog. Mae llawer o staff wedi datgan na fyddent o bosibl wedi pleidleisio o blaid y dyfarniad cyflog a gyflwynwyd os oeddent yn ymwybodol ar y pryd y byddai’r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu’r flwyddyn hon. Mae eraill yn credu bod cyflwyno’r taliadau hyn yn fodd sinigaidd o adennill y dyfarniad cyflog, rhywbeth a guddiwyd yn fwriadol pan gytunwyd ar y dyfarniad cyflog. Byddai gohirio gweithredu’r cynllun tan fis Ebrill 2011 yn dangos ewyllys da, ac yn helpu ateb rhai o’r pryderon hyn.

**Cynnydd yn y dyfodol**

Ni allwn dderbyn na fydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal os nad yw’r cynnydd yn y taliadau yn fwy na 3 y cant. Dylai unrhyw newidiadau ddigwydd ar ôl ymgynghoriad a chytundeb yn ôl yr amgylchiadau ar y pryd. Cynigwn fod adolygiad yn cael ei gynnal bob 2 flynedd, a dylai’r adolygiad cyntaf gael ei gynnal tua mis Ebrill 2012 pan fydd y trefniadau cyflogi presennol yn gorffen.

**Incwm dros ben**

Mae’r cynnig yn datgan y bydd unrhyw incwm dros ben ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio i adfer costau cynnal y maes parcio yn Nhŷ Hywel. O ystyried mai'r symbyliad sydd y tu ôl i'r cynigion hyn yw adfer y gost o ddarparu

Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651

E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk

cyfleusterau parcio allanol, dylid cyfyngu'r gost at y diben hwn yn unig. Mae'n afresymol disgwyl i'r staff gyfrannu at gynnal Tŷ Hywel. Yn ein barn ni, dylai unrhyw arian sydd dros ben gael ei gynnig fel ad-daliad yn y blynyddoedd sy'n dilyn.

**Materion eraill**

Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe baech yn gallu ymateb ar y pwyntiau a godwyd gan ein haelodau fel a ganlyn:

- Rydych yn cyfeirio at sefydliadau eraill yn y cynnig, gan gynnwys contractwyr ac is-denantiaid; a allwch egluro a ydych yn ystyried Llywodraeth Cymru a'i staff i fod yn is-denantiaid ai peidio?
- A bennir uchafswm ar nifer y pasau y gall contractwyr eu prynu, ac a fydd eu defnydd ohonynt yn cael ei fonitro? Mae rhai o'n haelodau wedi lleisio pryderon bod contractwyr yn cam-drin y system bresennol.
- Beth fydd y trefniadau ar gyfer cerbydau Gweinidogol? A fydd angen i bob cerbyd gael trwydded neu bob gyrrwr?
- A oes unrhyw gynlluniau i adolygu nifer y mannau parcio ar gyfer ymwelwyr neu nifer y mannau sydd wedi'u neilltuo, ac i adolygu'r broses o ddyrannu'r mannau hyn?
- Mae'r cynnig yn datgan na fydd staff sydd wedi eithrio o'r cynllun yn gallu parcio am ddim. Fodd bynnag, efallai bydd achlysuron yn codi pan fydd angen i'r staff hyn ddefnyddio eu cerbydau ar gyfer busnes swyddogol. A allwch egluro beth fyddai'n digwydd ar yr achlysuron hyn?
- Hoffem gael rhagor o wybodaeth am y cynnig na fydd unrhyw ad-daliadau am absenoldebau o lai nag 1 mis o hyd. Gallwn fod yn ymwybodol o flaen llaw am absenoldeb oherwydd salwch sydd wedi'i drefnu (er enghraifft, i gael llawdriniaeth) a rhai absenoldebau eraill, ond yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd absenoldeb oherwydd salwch wedi'i gynllunio yn y modd hwn. Os nad oes modd hawlio arian yn ôl yn ôl-weithredol, ni fydd y rhan fwyaf o absenoldebau hirdymor yn gymwys ar gyfer ad-daliad. Credwn fod angen edrych eto ar y trefniadau hyn.
- A allwch gadarnhau beth oedd y rheswm am bennu £5.00 fel y gost am drwydded newydd, neu drwydded sydd heb ei dychwelyd, i'r maes parcio aml-lawr?
- Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau pan fo'r sawl sy'n gyrru beic modur wedi parcio yn y maes parcio aml-lawr, oherwydd nid ydynt yn bresennol yn defnyddio'r mannau sydd wedi neilltuo ar gyfer ceir. A allwch egluro, felly, pam rydych yn teimlo bod angen codi'r un tâl i bobl sy'n gyrru beiciau modur ag i bobl sy'n gyrru ceir?
- Nid oes unrhyw sôn am staff sy'n gweithio dros nos yn y cynnig. Ni chredwn y dylai'r staff hyn orfod talu am eu pasau, oherwydd nid ydynt yn cael effaith ariannol ar y trefniadau parcio.
- A allwch egluro'r paragraffau sy'n cyfeirio at weithrediadau a dyrannu mannau parcio? Mae'r cynnig yn cyfeirio at gyfnod parcio o 24 awr ar gyfer

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**

gwaith neu fusnes yn unig. A yw hyn yn golygu na all unrhyw un adael eu cerbydau yn y maes parcio dros nos neu os nad ydynt yn yr adeilad?

- A ddylech gyfeirio at gerbydau'n lluosog yn hytrach na cherbyd unigol ym mharagraff 7? A ydym yn gywir i dybio y gall pob unigolyn gofrestru mwy nag un cerbyd cyd ag y bo'r meini prawf arferol yn cael eu bodloni?
- A ydych yn awgrymu ein bod yn parhau i gael mannau parcio at ddibenion lles? O bosibl, bydd achlysuron pan fyddai cael man parcio gwarantedig ar y safle yn gallu cael ei ystyried yn addasiad rhesymol ar gyfer cyfnod byr o amser.
- Sut y bydd y cyflogwr yn penderfynu sut i ddiffinio cam-drin trwydded, a beth fydd y gosb i'r staff? Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r gosb hon?
- Ai'r grŵp teithio arfaethedig fydd yn cwblhau'r adolygiad i ddadansoddi costau a awgrymir ym mharagraff 4? Dylai'r Undebau Llafur fod yn rhan o'r grŵp hwnnw.

Yn olaf, a allwch gadarnhau bod Comisiwn y Cynulliad wedi bwrw golwg, neu'n mynd i wneud hynny, ar ein llythyr blaenorol a'r llythyr hwn? Credwn y dylai'r Comisiynwyr fod yn ymwybodol o safbwynt yr Undebau Llafur cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol (yn enwedig pe byddai'r penderfyniadau hyn yn golygu bod angen iddynt gytuno i dorri contract). Os nad ydych yn gallu cadarnhau'r uchod, byddwn o bosibl yn ysgrifennu'n uniongyrchol at y Comisiynwyr ac Aelodau'r Cynulliad i gyflwyno'n pryderon.

Rydym yn hapus i gyfarfod â chi i drafod y mater yn fanylach pan fo'n gyfleus i chi wneud hynny.

Kevin Davies

Ysgrifennydd y Gangen

**Llinell Union/Direct Line: 029 2089 8651**

**E-bost/E-mail: stephen.george@ Wales.gsi.gov.uk**